

Manlyebau

Amlledd Gweithredu	869.2125 MHz
Maint	H100 x L165 x D33 mm
Cyflenwad Pŵer	Batri lithiwm wedi'i selio
Bywyd batri trosglwyddydd	Hyd at 10 mlynedd
Bywyd y ddyfais	10 blynedd
Pellter gweithio	Hyd at 600m
Cydymffurfio	CE / RoHS 2 / RED
Gwarant	24 mis

Batris / Hyd Oes y Larwm

Mae'r larwm CO yn cynnwys batri lithiwm nag ellir eu newid gan y defnyddwyr, ddylai parau hyd at 10 mlynedd, yn dibynnu ar faint y bydd yn cael eu defnyddio ag yr amgylchedd mae o wedi eu gosod. Mi fydd cyfnodau estynedig yn fodd larwm yn lleihau'r bywyd batri yn sylweddol. Pan fydd yna fatri isel, mi fydd yr uned yn swno bîp bob 60 eiliad. Pan fydd batri'r larwm CO yn isel, mae rhaid i'r uned gyflawn cael eu newid.

Beth bynnag y bywyd batri, mae'r larwm CO efo bywyd sefydlog o 10 mlynedd, nodwyd gan y dyddiad sydd wedi eu printio ar ochr y larwm. Mae rhaid newid y larwm erbyn y dyddiad hwn. Mi fydd y larwm yn swno bîp bob tri munud i nodi diwedd eu bywyd.

Mae'r trosglwyddydd radio o fewn y petris yn cynnwys batri cell lithiwm 3V na all eu newid gan y defnyddwyr. Fel arfer, mi fydd y batri yn para hyd at 10 mlynedd yn dibynnu ar y defnydd. Pan fydd y batri yn dod i ddiwedd eu bywyd, mi fydd rhaid newid yr uned trosglwyddo yn gyfan. Argymhellir hefyd newid y larwm CO cyflawn.

Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr arfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin. Defnyddiwch o dan do mewn lleoliad sych yn unig.

Gwaredu


Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

Datganiad cydymffurfiaeth:

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Orion yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU



Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

CO

Synhwyrdd Carbon Monocsid



Canllaw
Rhaglennu V 1.0

Mae'r larwm CO yn uned ddisylw, gryno a fydd yn rhoi'r rhybudd cynharaf bosib o lefelau niweidiol o garbon monocsid.

Os bydd carbon monocsid yn cael eu canfod, mi fydd yna rybudd clywadwy uchel ag mi fydd neges radio yn cael eu gyrru i'r ddyfais derbyn larwm.



Disgrifiad y cynnyrch

Mae'r larwm CO yn uned ddisylw, gryno a fydd yn rhoi'r rhybudd cynharaf bosib o lefelau niweidiol o garbon monocsid. Os bydd carbon monocsid yn cael eu canfod, mi fydd yna rybudd clywadwy uchel ag mi fydd neges radio yn cael eu gyrru i'r ddyfais derbyn larwm. Mae'r uned yn dod efo petris sydd yn cynnwys trosglwyddydd radio. Mae'r petris hefyd yn caniatáu opsiynau mowntio i osod y larwm CO yn ddiogel ar y nenfwd.

Nodyn: Mae'r canllaw yma yn atodol i lawlyfr y gwneuthurwr. Sicrhewch eich bod yn darllen y ddwy ddogfen cyn gosod a defnyddio'r larwm CO.

Lleoli

Mae'r adran yma yn cynnwys manylion cyffredinol er mwyn lleoli'r larwm. Cyfeiriwch at lawlyfr y gwneuthurwr wedi eu cynnwys efo'r larwm am fanylion llawn ar sut i leoli yn gywir.

Mi ddylai'r larwm CO cael eu gosod yn yr un ystafell a'r teclyn llosgi tanwydd sydd yn cael eu monitro, â'i osod rhwng 1m a 3m o'r teclyn. Le bosib, mi ddylai cael eu gosod ar wal uwch ben uchder unrhyw ddrws neu ffenestr sydd o leiaf 150mm o'r nenfwd. Os mae'r larwm wedi eu mowntio i'r nenfwd mi ddylai fod o leiaf 300mm o'r wal. Mi ddylai'r lleoliad hefyd fod yn rhydd o rywstra fel trawst, gosodiad golau, fent am o leiaf 300mm.

Sicrhewch fod y lleoliad a ddewisir hefyd o fewn pellter gweithio'r ddyfais derbyn larwm.

Gosod

Mi ellir gosod y petris yn ddiogel i'r wal/nenfwd drwy ddefnyddio'r gosodiadau caeedig. Unwaith mae'r petris wedi eu mowntio, mi ddylai'r wifren o'r larwm CO cael eu plygio i mewn i'r rhyngwyneb radio a sicrhau fod y plwg wedi'i gyfeirio'n gywir a chlywir clic. I gydosod y ddau ddarn efo'i gilydd, osodwch y larwm CO ar y petris. Sicrhewch fod yr agorfa i lifer y swïts wedi eu lleoli ar y piler tu fewn i'r petris ag llithrwyd yr uned tuag i lawr fel bod y slotiau ar ei ben yn ymgysylltiedig a bod y tag cloi (wedi ei leoli ar waelod yr uned) yn clicio i mewn i'w le. Mi fydd y weithred hon hefyd yn troi'r larwm CO ymlaen ac mi fydd yr uned yn cychwyn dilyniant prawf byr wrth bweru i fynnu. Mi all nawr actifadu'r larwm CO drwy ddefnyddio'r botwm testio ar blaen yr uned i sicrhau eu bod yn gweithio yn gywir a bod y trosglwyddydd radio yn gweithredu. I dynnu'r larwm CO oddi ar y petris, dad-wasgu y tag cloi a llithrwyd yr uned tuag at y brig. Mi fydd y weithred hon yn diffodd y larwm CO.

Cysylltu'r CO i'r Notifier neu system dderbyn arall

1. Gosodwch y CO i'r plât mowntio
2. Paratowch yr Notifier / system arall wrth ei rhoi yn fodd cofrestru
3. Actifadu'r CO
4. Dylai'r Notifier / system arall gydnabod y ddyfais newydd

Arwyddion Statws

Mae yna tri dangosydd LED ar blaen y larwm CO:

1. Larwm - Fflachio yn goch pan mae'r larwm wedi darganfod lefelau niweidiol CO
2. Pŵer - Fflachio yn wyrdd unwaith bob munud i ddangos fod y larwm ymlaen ac yn gweithredu yn gywir
3. Nam - Mi fydd LED melyn yn nodi fod yna nam tu fewn i'r larwm

Mi ellir yr LEDs sydd yn fflachio a'r seinydd tu fewn i'r larwm nodi'r amodau canlynol

- **Darganfod CO** - Ailadrodd cyfres o 4 bîp efo LED goch
- **Prawf** - Un gyfres o 4 bîp gyd LED goch, gwyrdd a melyn
- **Batri isel** - Bîp sengl bob munud
- **Nam** - Dau bîp bob munud efo LED goch a melyn
- **Diwedd bywyd** - Tri bîp bob munud

Testio

Mi ellir cario allan prawf yn hawdd drwy bwysu'r botwm testio ar du blaen yr uned. Mi fydd y tri LED yn fflachio, un ar ôl y llall, wedi ei dilyn can 4 bîp o'r seinydd. Mi fydd signal hefyd yn cael eu gyrru i'r ddyfais derbyn larwm. **Nodyn:** Mae'r botwm testio electronig yn darparu prawf llawn o ymarferoldeb y larwm. Peidiwch â thrio profi'r uned yn defnyddio nwy, mwg neu fflam noeth neu bydd hyn yn creu difrod.

Distewi

Mi ellir distewi'r larwm CO wrth bwysu'r botwm distewi yn sydyn. Mae hyn yn ddelfrydol ar gyfer sefyllfaoedd di-argyfwng le mae larwm diangen wedi eu codi. Mi fydd y larwm CO yn ail osod i fodd 'quiescent' ar ôl 10 munud. Mi ellir hefyd distewi rhybuddion batri isel. Gan fod rhybuddion batri isel yn gallu codi yn ystod y nos, mi ellir distewi'r rhybudd clywadwy dros dro am 10 awr drwy bwysu'r botwm distewi yn sydyn.

Glanhau

Mi ddylai'r larwm CO cael eu glanhau yn aml i sicrhau eu bod yn gweithio yn gywir. Cadwch o yn rhydd o lwch a defnyddiwch sugnwr llwch bob mis i sicrhau fod fentiau yn glir. Bob chwe mis, defnyddiwch gadach llaith i dynnu unrhyw staeniau a saim o goginio ac ati.